Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DEDDF TRIBIWNLYS ADOLYGU IECHYD MEDDWL CYMRU (AELODAETH) 2026

## Memorandwm Esboniadol

yn ymgorffori'r
Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r
Nodiadau Esboniadol

**Chwefror 2026**

# Tudalen gynnwys


**Rhan 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL**

1. Disgrifiad 3
2. Cymhwysedd Deddfwriaethol 4
3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael 5
4. Ymgynghori 7
5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth 8

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

6. Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol 9
7. Yr opsiynau 13
8. Costau a manteision 14
9. Asesiadau Effaith 15
10. Adolygu ar ôl gweithredu 17
11. Datganiad Fforddiadwyedd 17

**ATODIAD 1 – Nodiadau Esboniadol 18**

**ATODIAD 2 – Mynegai o Ofynion y Rheolau Sefydlog 21**

**ATODIAD 3 – Atodlen o Ddiwygiadau 25**

# RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

## 1. Disgrifiad

1.1. Mae Deddf Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Aelodaeth) 2026 (“y Ddeddf”) yn gwneud diwygiadau i'r maen prawf cymhwyso ar gyfer aelodaeth feddygol o Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru; ac yn gwneud darpariaeth ôl-weithredol gysylltiedig ynghylch dilysrwydd penodiadau blaenorol i'r tribiwnlys ac aelodaeth ohono.

1.2. Mae'n darparu bod rhaid i aelodau meddygol o'r tribiwnlys hwnnw fod yn ymarferwyr meddygol cofrestredig a ddiffinnir fel person cofrestredig llawn o fewn ystyr Deddf Meddygaeth 1983, ond nad oes angen iddynt ddal trwydded i ymarfer o dan y Ddeddf honno.

1.3. Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal adolygiad o'r trefniadau hyfforddiant a gynhelir gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru o dan adran 60(5)(a) o Ddeddf Cymru 2017 ar gyfer aelodau meddygol o Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru nad ydynt yn dal trwyddedau i ymarfer o dan Ddeddf Meddygaeth 1983.

1.4. Rhoddir dyletswydd arall ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi adroddiad o'r adolygiad heb fod yn hwyrach na 12 mis ar ôl y diwrnod y daw'r Ddeddf i rym.

## 2. Cymhwysedd Deddfwriaethol

Mae gan Senedd Cymru ("y Senedd") y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau yn Neddf Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Aelodaeth) ("y Ddeddf") yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006"), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017.

## 3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

3.1. Roedd mater technegol wedi'i nodi ynglŷn ag un agwedd ar y meini prawf ar gyfer penodi aelodau yn aelodau meddygol o Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru.

3.2. Diben y Ddeddf yw:

(a) rhoi effaith i'r bwriad polisi mai'r maen prawf cymhwyso ar gyfer aelodau meddygol yw bod rhaid iddynt fod wedi'u cofrestru o fewn ystyr Deddf Meddygaeth 1983, ond nad yw'n ofynnol iddynt ddal trwydded i ymarfer o dan y Ddeddf honno, a

(b) dilysu'n ôl-weithredol unrhyw benodiadau ar gyfer aelodau meddygol nad oeddent ar adeg eu penodi yn bodloni'r gofyniad i ddal trwydded i ymarfer a chynnal dilysrwydd y rhai y mae eu trwydded wedi dod i ben yn ystod tymor eu penodiad fel aelod meddygol.

3.3. Sefydlodd Deddf Iechyd Meddwl 1983 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007) Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru. Cylch gwaith y Tribiwnlys hwnnw yw ymdrin â cheisiadau a chyfeiriadau gan gleifion ac mewn cysylltiad â hwy o dan y Ddeddf honno. Mae Atodlen 2 i Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (fel y'i diwygiwyd) yn gwneud darpariaeth ynglŷn â chyfansoddiad y Tribiwnlys, gan gynnwys y math o aelodau a'r gofynion penodi ar gyfer yr aelodau hynny. Ymhlith y mathau o aelodau y mae rhaid eu penodi mae aelodau meddygol. Y gofynion ar gyfer aelodau meddygol yw eu bod yn ymarferwyr meddygol cofrestredig ("registered medical practitioners") a benodir gan yr Arglwydd Ganghellor.

3.4. Nid yw'r ymadrodd hwn wedi'i ddiffinio yn Neddf Iechyd Meddwl 1983. Fe'i diffinnir yn Atodlen 1 i Ddeddf Dehongli 1978 i olygu "a fully registered person within the meaning of the Medical Act 1983 who holds a licence to practise under that Act". Mae adran 5 o Ddeddf Dehongli 1978 yn ei gwneud yn ofynnol i'r diffiniad hwnnw gael ei gymhwyso yn Neddf Iechyd Meddwl 1983 onid ymddengys bwriad i'r gwrthwyneb.

3.5. Diffinnir y swydd ar gyfer siambr gyfatebol y tribiwnlys Haen Gyntaf yn Lloegr fel person "registered within the meaning of the Medical Act 1983 whether or not they hold a licence to practice under that Act".

3.6. Bwriad y polisi yw diffinio'r meini prawf ar gyfer penodi aelodau meddygol o Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru fel nad oes angen trwydded i ymarfer. Felly, mae angen diwygio Atodlen 2 i Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 i adlewyrchu'r polisi hwn.

3.7. Mae Deddf Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Aelodaeth) 2026 hefyd yn cynnwys darpariaeth sy'n dilysu'n ôl-weithredol benodiad yr aelodau meddygol hynny nad oedd ganddynt drwydded i ymarfer naill ai ar adeg eu penodi neu a ganiataodd wedyn i'w trwydded ddod i ben yn ystod tymor eu

penodiad fel aelod meddygol. Mae hyn yn golygu y bydd y penodiadau hynny'n cael eu trin fel pe baent yn ddilys o ddyddiad eu penodiad, heb unrhyw doriad.

3.8. Nod Deddf Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Aelodaeth) 2026 yw sicrhau bod trefniadau hyfforddi digonol ar waith ar gyfer aelodau meddygol nad ydynt yn dal trwydded i ymarfer. Mae hyn wedi'i gynllunio i sicrhau bod eu gwybodaeth broffesiynol yn cael ei chadw'n ddigon cyfredol.

3.9. Mae adran 60(5)(a) o Ddeddf Cymru 2017 yn darparu bod Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn gyfrifol am gynnal trefniadau priodol ar gyfer, ymhlith materion eraill, hyfforddiant aelodau o dribiwnlysoedd Cymru, a hynny o fewn yr adnoddau sydd ar gael gan Weinidogion Cymru. Mae Deddf Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Aelodaeth) 2026 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal adolygiad o'r trefniadau hyfforddiant a gynhelir gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru o dan adran 60(5)(a) o Ddeddf Cymru 2017 ar gyfer aelodau meddygol o Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru nad ydynt yn dal trwyddedau i ymarfer o dan Ddeddf Meddygaeth 1983.

3.10. Yna, mae Deddf Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Aelodaeth) 2026 yn gosod dyletswydd arall ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi adroddiad o'r adolygiad heb fod yn hwyrach na 12 mis ar ôl y diwrnod y daw'r Ddeddf i rym.

# 4. Ymgynghori

4.1. Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad ffurfiol ar yr amcanion polisi nac ar y Bil drafft. Cyhoeddwyd Bil Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Aelodaeth) ar y diwrnod y cafodd ei gyflwyno i'r Llywydd benderfyno arno a'i gyflwyno i'r Senedd yn ddiweddarach drwy weithdrefnau brys i fynd i'r afael â'r mater technegol a nodwyd cyn gynted â phosibl. Prif nod Llywodraeth Cymru oedd cyflwyno deddfwriaeth yn gyflym i sicrhau y gallai Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru barhau i weithredu a chyflawni ei ddyletswyddau statudol.

4.2. Wrth lunio'r Bil, gweithiodd Llywodraeth Cymru yn agos gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru a Llywydd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru.

4.3. Cyfrannodd absenoldeb dulliau amgen credadwy o sicrhau gweithrediad effeithiol parhaus y Tribiwnlys, effaith gyfyngedig y Bil a'r angen i fynd i'r afael â'r mater ar frys i gyd at y penderfyniad i beidio â chynnal ymgynghoriad llawnach cyn cyflwyno deddfwriaeth.

## 5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

Nid yw Deddf Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Aelodaeth) 2026 yn cynnwys unrhyw bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth nac i ddyroddi penderfyniadau.

# RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

## 6. Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1. Mae Deddf Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Aelodaeth) 2026 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud y canlynol:

- cynnal adolygiad o'r trefniadau hyfforddiant a gynhelir gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru o dan adran 60(5)(a) o Ddeddf Cymru 2017 ar gyfer aelodau meddygol o Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru nad ydynt yn dal trwyddedau i ymarfer o dan Ddeddf Meddygaeth 1983;
- cyhoeddi adroddiad o'r adolygiad heb fod yn hwyrach na 12 mis ar ôl y diwrnod y daw'r Ddeddf i rym.

6.2. Bydd y darpariaethau hyn yn arwain at gostau gweinyddol untro i Lywodraeth Cymru. Mae'r tabl isod yn dangos sut yr amcangyfrifwyd y costau hyn.

| Costau Adolygu'r Ddarpariaeth Hyfforddiant i Aelodau Meddygol o Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru nad ydynt yn dal Trwydded i Ymarfer a Chostau Llunio Adroddiad | | |
|---|---|---|
| 1x aelod o staff SEO yn gweithio 3 diwrnod i gasglu gwybodaeth | £80,795.49 x 3 / 365 | £664.00 |
| 1x aelod o staff SEO yn gweithio 2 ddiwrnod i ysgrifennu'r adolygiad a'r adroddiad/trefnu ar gyfer eu cyhoeddi | £80,795 x 2 / 365 | £443.00 |
| 1x aelod o staff Gradd 7 yn gweithio 1 diwrnod i wirio a chlirio'r adolygiad a'r adroddiad | £104,794.85 x 1 / 365 | £287.00 |
| 1x aelod o staff yr Uwch Wasanaeth Sifil yn gweithio 0.5 diwrnod i glirio'r adroddiad | £137,281.82 x 0.5 / 365 | £376.00 |
| 1x cyfieithydd SEO yn gweithio 1 diwrnod ar yr adroddiad, testun ar gyfer y wefan etc | £80,795.49 x 1 / 365 | £221.00 |
| | | £1,991.00 |

6.3. Nid oedd unrhyw ddarpariaethau penodol yn y Ddeddf sy'n codi ffioedd ar Gronfa Gyfunol Cymru.

### Tabl A

Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o'r costau a'r manteision ar gyfer y Ddeddf yn ei chyfanrwydd. Mae'r tabl wedi'i gynllunio i gyflwyno'r wybodaeth sydd ei hangen o dan Reol Sefydlog 26.6(viii) a (ix).

| *Deddf Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Aelodaeth)* | | |
|---|---|---|
| **Yr opsiwn a ffefrir:** Mae dewisiadau amgen wedi'u hystyried, ond y ffordd o weithredu a ffafriwyd gan Lywodraeth Cymru oedd cyflwyno deddfwriaeth i'r Senedd drwy weithdrefnau brys i ddiwygio'r meini prawf cymhwyso ar gyfer aelodaeth feddygol o Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru; a gwneud darpariaeth ôl-weithredol gysylltiedig ynghylch dilysrwydd penodiadau blaenorol i'r tribiwnlys ac aelodaeth ohono. Yr unig gostau sy'n codi o'r Ddeddf hon yw'r costau gweinyddol untro sy'n deillio o'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal adolygiad o'r trefniadau hyfforddiant ar gyfer aelodau meddygol o Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru nad ydynt yn dal trwydded i ymarfer, a chyhoeddi adroddiad ar yr adolygiad hwnnw yn dilyn hynny. | | |
| **Cyfnod:** Cyflwyniad | **Cyfnod Arfarnu:** 2025/26 ymlaen | **Blwyddyn sail brisiau:** 2025/26 ymlaen |
| **Cyfanswm y Gost**<br>**Cyfanswm: £1,991**<br>**Gwerth Presennol: £1,940** | **Cyfanswm y Manteision**<br>**Cyfanswm: £ Dim**<br>**Gwerth Presennol: £ Dim** | **Gwerth Presennol Net: £-1,940** |

## Cost weinyddol

| **Costau:** Effaith y Ddeddf yw gosod gofynion ynglŷn â chymwysterau ar gyfer aelodau meddygol, sy'n galluogi unigolion sy'n ymarferwyr meddygol cofrestredig o fewn ystyr Deddf Meddygaeth 1983 ond nad ydynt yn dal trwydded i ymarfer o dan y Ddeddf honno i eistedd fel aelodau meddygol o Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru.<br><br>Cyflwynodd y Ddeddf ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal adolygiad o'r trefniadau hyfforddiant ar gyfer aelodau meddygol o Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru nad ydynt yn dal trwydded i ymarfer, ac wedi hynny i gyhoeddi adroddiad ar yr adolygiad hwnnw o fewn blwyddyn i'r Ddeddf ddod i rym. Mae gan hyn oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru o ran costau gweinyddol rhwng mis Ionawr 2026 a mis Ionawr 2027. | | | |
|---|---|---|---|
| **Trosiannol: £1,991** | **Cylchol: £ Dim** | **Cyfanswm: £1,991** | **Gwerth Presennol: £1,940** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Arbedion cost:** Mae arbedion gweinyddol posibl yn gysylltiedig â'r Ddeddf hon. Os na wneir y diwygiadau y mae'r Ddeddf yn eu gwneud, o'r 41 aelod meddygol presennol o Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, ni fydd llawer o'r rhai mwyaf gweithgar yn gallu eistedd mewn gwrandawiadau, gan arwain o bosibl at y Tribiwnlys yn methu â bodloni ei ofynion statudol. Byddai angen cynnal ymarferion recriwtio ychwanegol ar gyfer aelodau meddygol sy'n dal trwydded i ymarfer er mwyn cymryd lle'r rhai nad ydynt bellach yn gallu eistedd. Nid yw'n bosibl amcangyfrif y costau hyn ar hyn o bryd. | | | |
| **Trosiannol: £ Dim** | **Cylchol: £ Dim** | **Cyfanswm: £ Dim** | **Gwerth Presennol: £ Dim** |
| **Cost weinyddol net: £1,991** | | | |

## Costau cydymffurfio

| | | | |
|---|---|---|---|
| Effaith y Ddeddf yw gosod gofynion ynglŷn â chymwysterau ar gyfer aelodau meddygol, gan alluogi unigolion sy'n ymarferwyr meddygol cofrestredig o fewn ystyr Deddf Meddygaeth 1983 ond nad ydynt yn dal trwydded i ymarfer o dan y Ddeddf honno i eistedd fel aelodau meddygol o Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru.<br><br>Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal adolygiad o'r trefniadau hyfforddiant ar gyfer aelodau meddygol o Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru nad ydynt yn dal trwydded i ymarfer, ac wedi hynny i gyhoeddi adroddiad ar yr adolygiad hwnnw o fewn blwyddyn i'r Ddeddf ddod i rym. Mae cydymffurfio â'r dyletswyddau hyn yn cynrychioli cost o ran amser i swyddogion Llywodraeth Cymru a fydd yn cynnal yr adolygiad ac yn llunio'r adroddiad. | | | |
| **Trosiannol: £ Dim** | **Cylchol: £ Dim** | **Cyfanswm: £ Dim** | **Gwerth Presennol: £ Dim** |

## Costau eraill

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ac eithrio'r rhai sy'n deillio o'r dyletswyddau a osodir ar Weinidogion Cymru, fel y'u disgrifir uchod, nid oes unrhyw gostau yn deillio o'r Ddeddf hon. | | | |
| **Trosiannol: £ Dim** | **Cylchol: £ Dim** | **Cyfanswm: £ Dim** | **Gwerth Presennol: £ Dim** |

## Costau heb eu meintioli ac anfanteision

| |
|---|
| Fel y nodir uchod, mae cost bosibl heb ei meintioli yn gysylltiedig â pheidio â chyflwyno'r Ddeddf. Gallai hyn olygu, o'r 41 aelod meddygol presennol o Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, na fydd llawer o'r rhai mwyaf gweithgar yn gallu eistedd mewn gwrandawiadau, gan arwain o bosibl at y Tribiwnlys yn methu â bodloni ei ofynion statudol. |

## Manteision

| | |
|---|---|
| Mantais y ffordd arfaethedig o weithredu yw y bydd pob aelod meddygol presennol o'r Tribiwnlys yn gallu eistedd mewn gwrandawiadau tribiwnlys, gan helpu i sicrhau bod y Tribiwnlys yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol. | |
| **Cyfanswm: £ Dim** | **Gwerth Presennol: £ Dim** |

## Tystiolaeth allweddol, rhagdybiaethau ac ansicrwydd

| |
|---|
| Fel y nodir uchod, effaith y Ddeddf fydd gosod y gofynion ynglŷn â chymwysterau ar gyfer aelodau meddygol, sy'n galluogi unigolion sy'n ymarferwyr meddygol cofrestredig o fewn ystyr Deddf Meddygaeth 1983 ond nad ydynt yn dal trwydded i ymarfer o dan y Ddeddf honno i eistedd fel aelodau meddygol o Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru. Yn ei hanfod, mae'n niwtral o ran cost. |

# 7. Yr opsiynau

7.1. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru a Llywydd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru i ystyried yr holl gamau lliniaru posibl neu ddewisiadau amgen yn lle deddfwriaeth frys. Mae hyn wedi cynnwys ystyried:

- a yw unrhyw un o'r aelodau unigol heb drwyddedau yn gallu sicrhau un yn gyflym drwy eu gweithredoedd eu hunain;
- a allai'r Cyngor Meddygol Cyffredinol gymryd rhywfaint o gamau i adfer (dros dro yn unig o bosibl) trwyddedau yn gyflym fel bloc i bawb a oedd yn dal un o'r blaen;
- beth y gellir ei wneud i drawsneilltuo aelodau o'r tribiwnlys cyfatebol yn Lloegr; a
- recriwtio aelodau meddygol newydd.

7.2. Nid yw gwneud i aelodau meddygol gael trwyddedau i ymarfer, naill ai drwy eu gweithredoedd eu hunain neu drwy gamau a gymerir gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol yn ateb ymarferol, gan fod gofyniad parhaus o ran datblygiad proffesiynol parhaus na fydd y rhan fwyaf o aelodau meddygol yn ei fodloni ar hyn o bryd (mae llawer wedi ymddeol o ymarfer rheolaidd).

7.3. Nid oes rhaid i aelodau meddygol sy'n eistedd yn siambr gyfatebol y tribiwnlys Haen Gyntaf yn Lloegr gael trwydded i ymarfer. Mae Llywodraeth Cymru yn deall nad yw'r Tribiwnlys yn cadw gwybodaeth am faint o'i aelodau meddygol sy'n dal trwydded ac, gan fod ganddo broblemau ar hyn o bryd hefyd gydag argaeledd aelodau meddygol i eistedd ar yr achosion y mae wedi'u rhestru, mae perygl y gallai trawsneilltuo amharu ar ei weithrediad.

7.4. Er bod proses recriwtio barhaus ar gyfer aelodau meddygol newydd o'r Tribiwnlys, nid oes gan hyn unrhyw obaith o gyflawni'r nifer o aelodau newydd sydd eu hangen yn ddigon cyflym i gwrdd â'r diffyg presennol o aelodau meddygol.

7.5. Yn olaf, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ystyried a ellid defnyddio deddfwriaeth y DU i fynd i'r afael â'r sefyllfa bresennol. Mewn egwyddor, gellid cymryd camau drwy ddeddfwriaeth sylfaenol y DU pe bai Bil addas ar gael, neu drwy is-ddeddfwriaeth y DU. Fodd bynnag, byddai'r naill lwybr neu'r llall o reidrwydd yn cymryd misoedd lawer.

7.6. Felly, penderfynodd Llywodraeth Cymru gyflwyno Bil brys i'r Senedd i sicrhau y gall aelodau meddygol o Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru nad oes ganddynt drwydded i ymarfer ddychwelyd i eistedd ar y Tribiwnlys cyn gynted â phosibl.

## 8. Costau a manteision

8.1. Mae'r ddeddfwriaeth hon, a gafodd ei chyflwyno i'r Senedd drwy brosesau brys, yn ateb cyflym i fynd i'r afael â mater technegol a allai, os na chaiff ei ddatrys, fel y nodir ym mhenodau blaenorol y Memorandwm Esboniadol hwn, effeithio ar allu Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru i fodloni ei rwymedigaethau statudol.

8.2. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal adolygiad o'r trefniadau hyfforddiant a wneir gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru ar gyfer aelodau meddygol o Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru nad ydynt yn dal trwydded i ymarfer, ac wedi hynny i gyhoeddi adroddiad ar yr adolygiad hwnnw o fewn blwyddyn i'r Ddeddf ddod i rym. Mae'r dyletswyddau hyn yn cynrychioli cost o ran amser i swyddogion Llywodraeth Cymru a fydd yn cynnal yr adolygiad ac yn llunio'r adroddiad.

8.3. Nod y gwelliannau a wnaed yng nghyfnod 3 yw sicrhau bod trefniadau hyfforddiant digonol ar waith ar gyfer aelodau meddygol o Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru nad ydynt yn dal trwydded i ymarfer.

# 9. Asesiadau Effaith

9.1. Amcan y Bil, ar adeg ei gyflwyno, oedd gosod gofynion ynglŷn â chymwysterau ar gyfer aelodau meddygol, gan alluogi unigolion sy'n ymarferwyr meddygol cofrestredig o fewn ystyr Deddf Meddygaeth 1983 ond nad ydynt yn dal trwydded i ymarfer o dan y Ddeddf honno i eistedd fel aelodau meddygol o Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru.

9.2. Ar ôl diwygio'r Bil yng nghyfnod 3, mae Deddf Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Aelodaeth) ("y Ddeddf") bellach yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal adolygiad o'r trefniadau hyfforddiant a wneir gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru ar gyfer aelodau meddygol o Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru nad ydynt yn dal trwydded i ymarfer, ac wedi hynny i gyhoeddi adroddiad ar yr adolygiad hwnnw o fewn blwyddyn i'r Ddeddf ddod i rym.

9.3. Rydym wedi ystyried effaith bosibl y Ddeddf ac wedi nodi ein canfyddiadau isod. Ar wahân i'r goblygiadau cost sy'n deillio o swyddogion Llywodraeth Cymru yn llunio ac yn cyhoeddi'r adroddiad hwn (sydd wedi'u nodi yn yr asesiad effaith rheoleiddiol a gynhwysir yn yr asesiad effaith integredig hwn), nid ydym o'r farn bod angen newidiadau i'n canfyddiadau cychwynnol.

9.4. Mae'n bwysig cydnabod y cynlluniwyd y Ddeddf i atal sefyllfa lle nad yw Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn gallu cyflawni ei rwymedigaethau. Yn arwyddocaol, nid ydym wedi gallu nodi unrhyw effaith negyddol a allai ddeillio o'r Ddeddf.

**Iechyd**

9.5. Nod y Ddeddf yw osgoi'r effaith andwyol o Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn methu â chyflawni ei ddyletswyddau statudol, gan helpu i sicrhau bod y Tribiwnlys yn parhau i weithredu. Felly, dylid ystyried ei bod yn cael effaith fuddiol ar ddefnyddwyr y Tribiwnlys a'u teuluoedd. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â'r nod llesiant "Cymru Iachach" fel y'i nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n anelu at gymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

**Effaith ar gydraddoldeb**

9.6. Bydd y Ddeddf yn helpu i sicrhau bod Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn parhau i gyflawni ei ddyletswyddau statudol. Bydd hyn yn amlwg yn cael effaith fuddiol ar ddefnyddwyr y Tribiwnlys a'u teuluoedd sy'n aml ymhlith yr aelodau mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

**Effaith ar hawliau plant**

9.7. Yn yr un modd, pan fo plant a phobl ifanc neu eu teuluoedd yn ddefnyddwyr Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, mae helpu i sicrhau bod y Tribiwnlys yn parhau i allu cyflawni ei ddyletswyddau statudol o fudd sylweddol iddynt.

**Effaith ar y Gymraeg**

9.8. Rydym wedi ystyried effaith bosibl y Ddeddf ar y Gymraeg ac wedi dod i'r casgliad mai bach iawn fydd yr effaith.

**Prawfesur Gwledig**

9.9. Nid yw'r Ddeddf yn cynnwys unrhyw ddarpariaethau a allai effeithio'n wahanol neu'n anghymesur ar unigolion sy'n byw, yn gweithio, yn cymdeithasu ac yn gwneud busnes mewn ardaloedd gwledig.

**Effaith ar yr amgylchedd, newid hinsawdd a bioamrywiaeth**

9.10. Rydym wedi ystyried effaith bosibl y Ddeddf ar yr amgylchedd, newid hinsawdd a bioamrywiaeth ac wedi dod i'r casgliad mai bach iawn fydd yr effaith.

**Effaith ar y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol**

9.11. Nod cyffredinol y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yw sicrhau gwell canlyniadau i'r rhai sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. Fel sy'n wir am grwpiau eraill, bydd y Ddeddf o bosibl yn cael effaith gadarnhaol ar y rhai sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol pan fônt neu aelod o'u teulu hefyd yn ddefnyddwyr Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, ac yn helpu i sicrhau gwell canlyniadau ar eu cyfer.

**Effaith ar y system gyfiawnder**

9.12. Mae Rheol Sefydlog 26.6(xii) yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru nodi effaith bosibl (os o gwbl) darpariaethau yn y Bil ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr mewn asesiad effaith ar gyfiawnder. Mae Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn rhan o'r system gyfiawnder ddatganoledig ac felly, nid oes angen asesiad effaith ar gyfiawnder.

**Effaith ar Breifatrwydd/Diogelu Data**

9.13. Nid yw'r Ddeddf yn gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer casglu, storio, diogelu, rhannu na rheoli data personol ac nid oes ganddi unrhyw oblygiadau ar gyfer defnyddio data personol na newid y defnydd o'r data hynny.

## 10. Adolygu ar ôl gweithredu

10.1. Bydd Uned Tribiwnlysoedd Cymru yn monitro effaith y Ddeddf ar argaeledd unigolion i wasanaethu fel aelodau meddygol o Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru. Bydd hyn yn dechrau cyn gynted ag y daw'r darpariaethau i rym.

## 11. Datganiad Fforddiadwyedd

11.1. Bydd y Ddeddf yn arwain at gost i Lywodraeth Cymru o ran amser swyddogion sydd angen llunio a chyhoeddi'r adroddiad yn unol â'r dyletswyddau newydd a osodir ar Weinidogion Cymru. Mae hon yn gost untro y gellir darparu ar ei chyfer o fewn dyraniadau'r gyllideb ar gyfer 2025/26 a 2026/27. Nid oes unrhyw bryderon o ran fforddiadwyedd.

## Atodiad 1

## Nodiadau Esboniadol

# DEDDF TRIBIWNLYS ADOLYGU IECHYD MEDDWL CYMRU (AELODAETH) 2026

---

NODIADAU ESBONIADOL

**CYFLWYNIAD**

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Deddf Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Aelodaeth) 2026 ("y Ddeddf"), a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 13 Ionawr 2026. Fe'u lluniwyd gan Grŵp y Prif Weinidog Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf ond nid ydynt yn rhan ohoni.

**CRYNODEB A'R CEFNDIR POLISI**

2. Mae'r Ddeddf yn mynd i'r afael â mater technegol sydd wedi ei nodi mewn perthynas â'r maen prawf penodi ar gyfer aelodau meddygol o Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru.

3. Mae'n ofynnol gan baragraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 i aelodau meddygol y tribiwnlys hwn fod yn "registered medical practitioners" ("ymarferwyr meddygol cofrestredig"). Nid yw'r ymadrodd hwn wedi ei ddiffinio yn Neddf Iechyd Meddwl 1983. Fodd bynnag, fe'i diffinnir yn Atodlen 1 i Ddeddf Dehongli 1978 i olygu "a fully registered person within the meaning of the Medical Act 1983 who holds a licence to practise under that Act". Mae adran 5 o Ddeddf Dehongli 1978 yn ei gwneud yn ofynnol i'r diffiniad hwnnw gael ei gymhwyso yn Neddf Iechyd Meddwl 1983 onid ymddengys bwriad i'r gwrthwyneb.

4. Y bwriad polisi yw y dylai fod yn ofynnol i aelodau meddygol gael eu cofrestru o fewn ystyr Deddf Meddygaeth 1983 ond heb unrhyw ofyniad i ddal trwydded i ymarfer o dan y Ddeddf honno.

5. Felly, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Fil Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Aelodaeth) i'r Senedd er mwyn galluogi personau sydd wedi eu cofrestru'n llawn o fewn ystyr "fully registered" yn Neddf Meddygaeth 1983 i gael eu penodi yn aelodau meddygol o Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, pa un a yw'r personau hynny yn dal trwyddedau i ymarfer ai peidio.

6. Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu, pan fo personau wedi eu penodi yn y gorffennol yn aelodau meddygol ond nad oeddent yn dal trwydded i ymarfer neu yr oeddent wedi

caniatáu i'w trwydded ddarfod, bod y penodiadau hynny ac aelodaeth y personau hynny o'r tribiwnlys yn ddilys.

7. Mae adran 60(5)(a) o Ddeddf Cymru 2017 yn darparu bod Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn gyfrifol am gynnal trefniadau priodol ar gyfer, ymhlith materion eraill, hyfforddi aelodau o dribiwnlysoedd Cymru o fewn yr adnoddau sy'n cael eu rhoi ar gael gan Weinidogion Cymru. Mae Deddf Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Aelodaeth) 2026 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal adolygiad o'r trefniadau hyfforddiant a gynhelir gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru o dan adran 60(5)(a) o Ddeddf Cymru 2017 ar gyfer aelodau meddygol o Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru nad ydynt yn dal trwyddedau i ymarfer o dan Ddeddf Meddygaeth 1983.

8. Mae'r Ddeddf wedyn yn gosod dyletswydd bellach ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi adroddiad o'r adolygiad heb fod yn hwyrach na 12 mis ar ôl y diwrnod y daw i rym (daeth y Ddeddf i rym ar 22 Ionawr 2026).

9. Y bwriad polisi yw sicrhau bod trefniadau hyfforddiant digonol ar waith fel y caiff gwybodaeth broffesiynol yr aelodau meddygol hyn, er nad oes ganddynt drwydded i ymarfer, ei chadw'n ddigon cyfredol.

10. Effaith y Ddeddf fydd newid y gofynion cymhwyso ar gyfer aelodau meddygol er mwyn galluogi unigolion sy'n bersonau sydd wedi eu cofrestru'n llawn o fewn ystyr "fully registered person" yn Neddf Meddygaeth 1983 ond nad ydynt yn dal trwydded i ymarfer gyfredol o dan y Ddeddf honno i eistedd fel aelodau meddygol o Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru. Drwy osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu'r hyfforddiant a drefnir gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru ar gyfer aelodau meddygol heb drwydded i ymarfer ac i gyhoeddi adroddiad ar yr adolygiad hwnnw, ei nod yw sicrhau bod y ddarpariaeth yn ddigonol er mwyn cadw gwybodaeth broffesiynol aelodau meddygol nad ydynt yn ymarfer yn gyfredol.

## TROSOLWG CYFFREDINOL O'R DDEDDF

11. Mae'r Ddeddf yn cynnwys pedair adran fer.

## SYLWADAU AR YR ADRANNAU

### Adran 1 - Aelodaeth Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru

12. Mae adran 1 yn diwygio Atodlen 2 i Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru.

13. Mae paragraff 1(b) o Atodlen 2 i Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yn darparu bod rhaid i Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru gynnwys aelodau, y cyfeirir atynt fel "medical members", sy'n ymarferwyr meddygol cofrestredig.

14. Mae adran 1(3) o'r Ddeddf yn mewnosod diffiniad o'r term "registered medical practitioner" ym mharagraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Diffinnir y term i olygu person sydd wedi ei gofrestru'n llawn o fewn ystyr "fully registered person" yn Neddf Meddygaeth 1983 (ni waeth a yw'r person hwnnw yn dal trwydded i ymarfer o dan y Ddeddf honno).

15. Mae adran 1(3) o’r Ddeddf yn diwygio paragraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 ymhellach i ddarparu, os, cyn dwyn i rym y diffiniad newydd hwn o “registered medical practitioner”, nad oedd person a benodwyd yn aelod meddygol yn dal trwydded i ymarfer o dan Ddeddf Meddygaeth 1983 (pa un ai ar yr adeg y’i penodwyd neu ar unrhyw adeg arall ers hynny), nad effeithir ar ddilysrwydd penodiad y person i Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru na’i aelodaeth o’r tribiwnlys hwnnw yn ystod y cyfnod hwnnw.

**Adran 2 – Hyfforddiant ar gyfer aelodau meddygol nad ydynt yn ymarfer**

16. Mae adran 2(1) o’r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal adolygiad o’r trefniadau hyfforddiant a gynhelir gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru o dan adran 60(5)(a) o Ddeddf Cymru 2017 ar gyfer aelodau meddygol o Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, nad ydynt yn dal trwyddedau i ymarfer o dan Ddeddf Meddygaeth 1983. Mae adran 60(5)(a) o Ddeddf Cymru 2017 yn gwneud Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn gyfrifol am gynnal trefniadau priodol, o fewn yr adnoddau sy’n cael eu rhoi ar gael gan Weinidogion Cymru, ar gyfer nifer o faterion gan gynnwys hyfforddi aelodau o dribiwnlysoedd Cymru.

17. Mae adran 2(2) o’r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi adroddiad o’r adolygiad y maent wedi ei gynnal o dan adran 2(1) o’r Ddeddf heb fod yn hwyrach na 12 mis ar ôl y diwrnod y daw’r Ddeddf i rym.

**Adran 3 - Dod i rym**

18. Mae adran 3 yn darparu y daw’r darpariaethau a nodir yn y Ddeddf i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Cydsyniad Brenhinol. Cafwyd y Cydsyniad Brenhinol ar 21 Ionawr 2026.

**Adran 4 – Enw byr**

19. Mae adran 4 yn gwneud darpariaeth ar gyfer enw’r Ddeddf newydd yn y Gymraeg a’r Saesneg.

**COFNOD Y TRAFODION YN SENEDD CYMRU**

20. Mae’r tabl a ganlyn yn nodi’r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Ddeddf drwy’r Senedd. Gellir cael Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Ddeddf hon ar wefan y Senedd ar: https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=46988

| **Cyfnod** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Cyflwynwyd | 13 Ionawr 2026 |
| Cyfnod 1 - Dadl | 13 Ionawr 2026 |
| Cyfnod 2 Pwyllgor Craffu – ystyried y gwelliannau | 14 Ionawr 2026 |
| Cyfnod 3 Cyfarfod Llawn – ystyried y gwelliannau | 14 Ionawr 2026 |
| Cyfnod 4 Cymeradwywyd gan y Senedd | 14 Ionawr 2026 |
| Y Cydsyniad Brenhinol | 21 Ionawr 2026 |

# Atodiad 2

## Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog

Tabl

| Rheol sefydlog | | Adran | tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| 26.6(i) | Datgan y byddai darpariaethau'r Ddeddf o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd | Datganiad yr Aelod a oedd wedi'i gynnwys yn y memorandwm esboniadol a oedd yn cyd-fynd â'r Bil fel y'i cyflwynwyd. | |
| 26.6(ii) | Nodi amcanion polisi y Ddeddf | Pennod 3 – Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael | 5 |
| 26.6(iii) | Nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion polisi eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Ddeddf ei mabwysiadu | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Opsiynau | 9 a 13 |
| 26.6(iv) | Nodi'r ymgynghori a gafwyd, os cafwyd unrhyw ymgynghori o gwbl, ar y canlynol:<br>(a) amcanion polisi y Ddeddf a'r ffyrdd o'u gwireddu;<br>(b) manylion y Ddeddf, ac<br>(c) Bil drafft, naill ai yn llawn neu'n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau) | Pennod 4 – Ymgynghori | 7 |

| Rheol sefydlog | | Adran | tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| 26.6(v) | Nodi crynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio | Pennod 4 – Ymgynghori | 7 |
| 26.6(vi) | Os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, datgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | Pennod 4 – Ymgynghori | 7 |
| 26.6(vii) | Crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Ddeddf ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Ddeddf | Atodiad 1 – Nodiadau Esboniadol | 17 |
| 26.6(viii) | Nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol:<br><br>(a) y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a'r costau gros eraill y byddai darpariaethau'r Ddeddf yn arwain atynt;<br><br>(b) yr arbedion gweinyddol y byddai'r Ddeddf yn arwain atynt;<br><br>(c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Ddeddf;<br><br>(d) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | 9 |

| Rheol sefydlog | | Adran | tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| | (e) ar bwy y byddai'r costau'n syrthio | | |
| 26.6(ix) | Unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Ddeddf na ellir eu mesur yn ariannol | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | 9 |
| 26.6(x) | Os yw'r Ddeddf yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath:<br><br>(a) y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo ac ym mha fodd y mae'r pŵer i gael ei arfer;<br><br>(b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo'r pŵer; ac<br><br>(c) gweithdrefn y Senedd (os oes un) y mae'r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i'w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall); | Pennod 5 – Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth | 8 |
| 26.6(xi) | Os yw'r Ddeddf yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio | Nid yw gofyniad Rheol Sefydlog 26.6(xi) yn gymwys i'r Ddeddf hon | |

| Rheol sefydlog | | Adran | tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| 26.6(xii) | Nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Ddeddf ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. | Rhan 2 – Asesiadau Effaith | 15 a 16 |
| 26.6B | Pan fo darpariaethau'r Ddeddf yn deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, boed at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi, rhaid darparu tabl tarddiadau i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol er mwyn esbonio'n glir beth yw'r berthynas rhwng y Ddeddf a'r fframwaith cyfreithiol presennol. | Nid yw'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6B i gyflwyno Tabl Tarddiadau yn gymwys i'r Ddeddf hon, gan fod y Ddeddf yn ddarn o ddeddfwriaeth annibynnol nad yw'n deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi. | |
| 26.6C | Pan fo'r Ddeddf yn cynnig diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol, rhaid darparu atodlen i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol, yn nodi geiriad deddfwriaeth bresennol sy'n cael ei diwygio gan y Ddeddf, ac yn nodi'n eglur sut y caiff y geiriad hwnnw ei ddiwygio gan y Ddeddf | Atodiad 3 – Atodlen o Ddiwygiadau | 26 |

# Atodiad 3

# Atodlen o ddiwygiadau

**Deddf Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Aelodaeth) 2026**

Y DIWYGIADAU SYDD I GAEL EU GWNEUD GAN
DDEDDF TRIBIWNLYS ADOLYGU IECHYD MEDDWL CYMRU
(AELODAETH) 2026

Bwriedir i'r ddogfen hon ddangos sut y byddai paragraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 fel yr oedd yn gymwys o ran Cymru ar 5 Ionawr 2026 yn edrych fel y'i diwygid gan Ddeddf Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Aelodaeth) 2026.

Mae'r testun sy'n cael ei ychwanegu gan Ddeddf Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Aelodaeth) wedi'i danlinellu, e.e. <u>mae'r testun sy'n cael ei ychwanegu yn edrych fel hyn</u>. Rhoddir cyfeiriad at y ddarpariaeth ddiwygio berthnasol yn y Ddeddf yn y golofn dde ar bob tudalen.

Mae testun llawn paragraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 wedi'i gynnwys, er mwyn helpu i ddeall y diwygiadau arfaethedig.

**Rhybudd**

Mae'r testun hwn wedi'i lunio gan swyddogion yng Ngrŵp y Prif Weinidog yn Llywodraeth Cymru. Er bod pob ymdrech wedi'i gwneud i sicrhau ei fod yn gywir, ni ddylid dibynnu arno fel testun diffiniol o'r Ddeddf.

At ddiben helpu pobl i ddeall effaith Deddf Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Aelodaeth) yn unig y mae'r testun wedi'i lunio. Ni fwriedir iddo gael ei ddefnyddio mewn unrhyw gyd-destun arall.

**Atodlen 2 i Ddeddf Iechyd Meddwl 1983**

Paragraff 1

*Yr adran ddiwygio yn Neddf Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Aelodaeth)*

Adran 1

(1) The Mental Health Review Tribunal for Wales shall consist of —

(a) a number of persons (referred to in this Schedule as “the legal members”) appointed by the Lord Chancellor and having such legal experience as the Lord Chancellor considers suitable;

(b) a number of persons (referred to in this Schedule as “the medical members”) being registered medical practitioners appointed by the Lord Chancellor; and

(c) a number of persons appointed by the Lord Chancellor and having such experience in administration, such knowledge of social services or such other qualifications or experience as the Lord Chancellor considers suitable.

(2) In sub-paragraph (1)(b), “registered medical practitioner” means a fully registered person within the meaning of the Medical Act 1983 (whether or not that person holds a licence to practise under that Act).

(3) If, before the coming into force of sub-paragraph (2), a person appointed as a medical member under this paragraph did not hold a licence to practise under the Medical Act 1983 (whether at the time of appointment or at any other time), that fact does not affect the validity of—

(a) the person’s appointment to the Mental Health Review Tribunal for Wales, or

(b) the person’s membership of that tribunal during that period.